

Cyfeirnod(au) y Papur

6957/01

Edexcel GCE

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Gymhwysol

Uned 7: Defnyddio Meddalwedd Cronfa Ddata

Ionawr 2008

Senario

Agorwch y deunydd hwn ar unwaith. Ni ddylai gael ei ddsbarthu i ymgeiswyr yn gynharach na thair wythnos waith cyn yr arholiad.

Sylwer: Nid oes ffeiliau ymarfer ar gyfer yr arholiad hwn.

Caiff y disgrifiad trosodd ei ddefnyddio fel senario ar gyfer y fanyleb uchod, a chaiff ei ailddosbarthu gyda'r papur arholiad. Dylai'r senario hwn gael ei ddefnyddio at ddiben paratoi ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad. Ni chaniateir mynd â'r deunydd hwn i mewn i'r arholiad.

Mae mwy o fanylion i'w cael yn y Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Arholiadau, sydd ar gael o wefan Edexcel ar gyfer y cymhwyster a'r pwnc hwn.

Ni fydd Edexcel yn derbyn unrhyw gais am ystyriaeth arbennig os rhoddir y senario anghywir i ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad y maent yn ei sefyll.

Rhif Log yr Argraffwr

N33490A



N 3 3 4 9 0 A

W850/S6957/57570 2/2/

Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn yn unig yn unol â pholisi hawlfraint Edexcel Limited. ©2008 Edexcel Limited.

Trowch y dudalen

edexcel 
advancing learning, changing lives

Parc Thema Gorllewin Gwyllt Bronco Brian Gunn

Tyfodd Brian Gunn i fyny yn y pumdegau pan fu poblogrwydd ffilmiau'r Gorllewin Gwyllt ar ei anterth. Wrth iddo gael ei fagu ar ffilmiau John Wayne a rhaglenni teledu fel y Lone Ranger, datblygodd ef ffilmiau gyfaredd â'r Gorllewin Gwyllt. Yn ddeg oed, ymunodd â Chlwb Gorllewin Gwyllt Billericay, yr oedd ganddo bedwar deg pump o aelodau. Daeth uchafbwynt Brian ym 1976 pan enillodd Dwrnameint Quick-Draw y Byd ar ôl bod yn Bencampwr Cenedlaethol am wyth mlynedd yn olynol.



Yn anochel, roedd bywyd gwaith Brian yn mynd i fod yn gysylltiedig rhyw ffordd â'r Gorllewin Gwyllt. Ar ôl ymadael â'r ysgol agorodd e'r cyntaf o'i dai bwyta bwyd cyflym yn Billericay. Mae cadwyn o dai bwyta "Barrau Byrger a Ffa Bronco Brian" bellach yn ymestyn ar draws y wlad, a thros y blynyddoedd, mae wedi ennill ffortiwn eithaf sylweddol i Brian. Mae ei ymerodraeth wedi ehangu ac mae wedi agor parc thema "Parc Thema Gorllewin Gwyllt Bronco Brian Gunn" yn Burnham-on-Crouch.

Y parc thema

I ddechrau, nid oedd cwsmeriaid yn talu tâl mynediad i'r parc thema ond yn talu prisiau unigol ar gyfer y reidiau. Roedd dwy broblem i hyn. Yn gyntaf roedd y ciwiau cymryd arian yn mynd yn hir iawn gan fod rhaid talu tâl a rhoi newid, a oedd yn tueddu i oedi'r broses. Yn ail roedd yr holl arian parod yn agor y cabannau cymryd arian i'r risg o ladrata. Dyfeisiodd Brian gynllun aelodaeth. Dosbarthwyd cerdyn sweip tebyg i gerdyn credyd i aelodau. Gallai aelodau brynu pwyntiau ar gyfer y cerdyn naill ai drwy'r rhyngwyd neu mewn caban yn y parc thema ei hun. Gosodwyd mynedfa arall i bob reid ar gyfer aelodau yn unig. Cafodd gwerth pwyntiau o rhwng 10 a 150 pwynt ei neilltuo i bob reid. Roedd mynedfa'r aelodau yn glwyd awtomataidd a oedd yn gweithio drwy sweipio'r cerdyn aelodaeth drwy ddarllenwyd. Roedd nifer y pwyntiau a oedd ar gael i'r aelod yn cael ei ddal ar gronfa ddata. Roedd sweipio'r cerdyn nid yn unig yn gweithredu'r glwyd ond yn tynnu nifer y pwyntiau a neilltuwyd ar gyfer y reid o gofnod yr aelod ar y gronfa ddata. Roedd yr aelod yna'n uno â'r ciw arferol ychydig yn ddiweddarach. Roedd y cerdyn yn cael ei adnabod gan ddefnyddio rhif 16 ffigur yn ymddangos mewn pedwar grŵp o bedwar digid wedi'u gwahanu gan ofod.

Cadw lle

Er bod y system newydd yn lleihau'r ciw ychydig cafwyd nifer o gŵynion gan yr aelodau. Yn gyntaf, roeddent yn teimlo y dylai eu haelodaeth roi rhyw fath o flaenoriaeth iddynt yn y ciw gan eu bod o hyd yn gorfod aros dros awr am rai reidiau. Yn ail, pan oedd y ciwiau yn hir iawn bu sawl anghydfod lle'r oedd y ciwiau yn uno. Penderfynodd Bronco Brian na ddylai'r ddwy fynedfa gyfarfod nes eu bod ar fin mynd ar y reid ac yna byddai'r gweinydd yn dewis pobl i fynd ar y reid bob yn ail o bob ciw. Roedd hyn wedi helpu ond gofynnodd yr aelodau os gallent gadw reidiau ymlaen llaw. Penderfynodd Bronco Brian fod hyn efallai'n syniad da. Felly creodd y system ganlynol ac mae'n bwriadu cynnal treial ohoni yn ei barc thema un penwythnos yn ystod Mehefin 2008.

Mae Bronco Brian wedi penderfynu cadw pum lle ar bob un o'i brif reidiau ar dair adeg (sesiwn) yn ystod y dydd. Amserau'r reidiau cadw hyn fydd y reid nesaf ar ôl 11:00, 14:00 a 16:00. Bydd aelodau yn gallu bwcio lleoedd ar y reidiau hyn drwy gyfrwng y rhyngwyd unrhyw bryd cyn eu hymweliad.

Hoffai Bronco Brian i'r system weithio fel hyn. Pan fydd aelodau yn mewngofnodi ar wefan y parc thema ac yn mynd i'r cyswllt Cadw Reidiau, bydd ffurflen yn cael ei chyflwyno iddynt yn gofyn iddynt gofnodi rhif eu cerdyn. Bydd pobl nad ydynt yn aelodau yn cael cynnig cyfle i gofrestru. Os oes angen iddynt gofrestru, byddant yn pwyso botwm sy'n cyflwyno sgrin iddynt i gofnodi eu manylion. Pan fyddant wedi cofnodi eu holl fanylion ac wedi pwyso'r botwm cofrestru, bydd y system yn creu rhif cerdyn iddynt ac yn ei arddangos ar sgrin. Bydd wyth digid cyntaf rhif y cerdyn bob amser yn 5555 1946. Mae'r wyth digid sy'n weddill yn cael eu ffurfio gan Rif Adnabod cwsmer, wyth digid. Pan fydd cwsmer newydd yn cofrestru rhoddir iddynt Rif Adnabod cwsmer sydd un yn uwch na'r Rhif Adnabod cwsmer uchaf sydd yn y system ar hyn o bryd. Bydd y cwsmer nawr yn aelod a dylid gofyn iddo ysgrifennu'r rhif hwn er mwyn ei ddefnyddio yn y dyfodol. Yna, bydd yn clicio ar fotwm a fydd yn ei dywys yn ôl i'r ffurflen Cadw Reidiau wreiddiol. Nawr mae ganddo rif cerdyn i'w gofnodi. I ddechrau bydd 2000 o bwyntiau yn cael eu rhoi i aelodau newydd a bydd eu cardiau yn aros amdanynt wrth fynedfa'r parc thema. Cost y cardiau hyn i'r aelod fydd £55.

Pan fydd yr aelod wedi cofnodi rhif y cerdyn ar y ffurflen Cadw Reidiau bydd ei fanylion yn cael eu harddangos. Bydd gwall-neges yn cael ei harddangos os nad yw rhif y cerdyn yn bodoli a chaiff yr aelod ei dywys yn ôl i'r ffurflen wreiddiol i ailgyflwyno'r rhif. Gofynnir i'r aelod gadarnhau bod y manylion yn gywir ac, wedi gwneud hynny, bydd yn cael ei dywys i ffurflen arall lle bydd yn dewis y reidiau y mae'n dymuno'u cadw. Ym mhob achos, mae'n rhaid iddo gofnodi'r reid a'r amser sydd eu heisiau arno. Bydd y system yn gwirio a oes lle wedi'i chadw ar gael ac, os nad oes, bydd yn dangos neges ac ni fydd yn storio'r cais i gadw lle. Os oes lle ar gael a bod gan yr aelod ddigon o bwyntiau ar ei gerdyn i gadw'r reid, yna bydd y cais i gadw lle yn cael ei storio. Bydd nifer y lleoedd cadw sydd ar gael yn gostwng un a bydd pwyntiau'r aelod yn gostwng fesul gwerth pwyntiau'r reid, ynghyd â deg pwynt fel tâl cadw. Os nad oes gan yr aelod ddigon o bwyntiau yna caiff neges ei harddangos ac ni chedwir y lle.

Bydd ystafell aros yn cael ei chreu wrth bob un o'r reidiau ar gyfer yr aelodau sydd wedi cadw lle. I hawlio'u reid, rhaid i aelodau gyrraedd yr ystafell aros cyn yr amser neilltuedig. Bydd y gweinydd yn gwirio eu cardiau ar gyfrifiadur i gadarnhau bod hawl ganddynt i'r reid. Yna, yr aelodau sydd wedi cadw lle fydd y bobl gyntaf i gael mynd ar y reid gyntaf ar ôl yr amser neilltuedig.

Y system arfaethedig

Mae angen i chi greu cronfa ddata newydd fydd yn dal y data o'r hen system aelodaeth ac yn delio â'r broses gadw lle newydd arfaethedig.

TUDALEN WAG